# Adolygiad o waith craffu Pwyllgorau Cynulliad Cymru ar Gyllideb Ddrafft 2019-20 Cymru: themâu allweddol

Darparwyd y papur hwn gan Michael Scholes o'r Uned Craffu ar Gyllid Cyhoeddus yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon, a darparwyd diweddariadau gan Uned Craffu Ariannol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2019. Mae'n nodi themâu allweddol sy'n codi o waith craffu pwyllgorau Cynulliad Cymru ar Gyllideb Ddrafft Cymru 2019-20, gan gynnwys yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru, dyraniadau gwariant a phenderfyniadau cyllidol, yn dilyn adolygiad o'r llythyrau a'r adroddiadau pwyllgor hynny.

Mae'r adolygiad o lythyrau ac adroddiadau pwyllgor wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Adran 1: Tryloywder Prosesau Cyllideb y Llywodraeth;
- Adran 2: Trawsnewid Gwasanaethau;
- Adran 3: Asesiadau Effaith Integredig Strategol;
- Adran 4: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- Adran 5: Trechu Tlodi;
- Adran 6: Prinder Cyllid;
- Adran 7: Data sy'n benodol i Gymru;
- Adran 8: Gwariant Ataliol;
- Adran 9: Brexit;
- Adran 10: Tabl Cryno o'r Materion sy'n Codi; ac,
- Adran 11: Y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith craffu yn dilyn y Gyllideb Ddrafft

Wrth ystyried pob thema, mae'n bwysig cofio bod Cyllideb Ddrafft 2019-20 Cymru wedi'i llunio yng nghyd-destun pwerau cyllidol newydd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys pennu graddfa'r dreth incwm yng Nghymru. Wrth arfer y pŵer newydd hwn, dewisodd Llywodraeth Cymru beidio â chynyddu cyfraddau treth incwm Cymru, gan gadarnhau'r ymrwymiad a nodwyd ym maniffesto Llafur Cymru, a bydd:

> *yn y flwyddyn i ddod… yn canolbwyntio'n galed ar sicrhau trosglwyddiad didrafferth i'r weinyddiaeth newydd, a fydd yn ategu'r cyfrifoldebau newydd hyn.*[1]

[1] Llywodraeth Cymru (2018) *Cyllideb Ddrafft 2019-20 Cynigion amlinellol* : https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/2019-2020-gyllideb-ddrafft-amlinellol-naratif-a.pdf

# 1. Tryloywder Prosesau Cyllideb y Llywodraeth

Mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft 2018-19, dywedodd sawl pwyllgor eu bod yn awyddus i weld proses gyllidebu a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn dod yn fwy tryloyw. Roedd y diffyg eglurder a manylder yn nogfennau'r gyllideb yn parhau i fod yn rhwystr i bwyllgorau graffu ar y gyllideb yn effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch y modd y gwnaeth Llywodraeth Cymru flaenoriaethu'r prosiectau a'r amcanion a gynlluniwyd ganddi, a sut roedd y Gyllideb yn gysylltiedig â'r amcanion hynny.

Fodd bynnag, dywedodd y Pwyllgor Cyllid fod gwell tryloywder ers y llynedd, ac y cafwyd gwelliant hefyd yn y modd y lluniwyd y dogfennau sy'n ymwneud â'r gyllideb. Meddai:

> *Roedd dogfennaeth y gyllideb yn cynnwys nifer o newidiadau mewn ymateb i waith craffu'r Pwyllgor y llynedd. Roedd y naratif yn canolbwyntio'n fwy ar sut y mae'r dyraniadau'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.*[2]

Serch hynny, ailbwysleisiodd y Pwyllgor Cyllid yr angen am fanylion ariannol mwy eglur, gan gynnwys manylion am y modd y caiff yr ymrwymiadau eu hariannu. Ategwyd hyn gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a ddywedodd:

> *fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid oes manylion am lefel yr adnoddau a ddyrennir i blant a phobl ifanc…*

A hefyd:

> *Fel yn y blynyddoedd blaenorol, nid yw Cyllideb Ddrafft 2019-20 yn cynnwys manylion am lefel yr adnoddau a ddyrennir i blant a phobl ifanc, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd.*[3]

Wrth drafod y *Cynllun Gweithredu Addysg Ôl-16* roedd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg o'r farn y gellid gwella tryloywder trwy ddarparu ffigurau dangosol cyn diwedd y broses graffu. Soniodd hefyd am ei bryder nad oedd offer craffu, gan gynnwys cyllidebu mwy tryloyw ar gyfer plant a phobl ifanc ac Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, ar gael

---

[2] Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018), Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-2020: www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld11905/cr-ld11905-w.pdf

[3] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2018), Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20: http://www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld11901/cr-ld11901-w.pdf

iddo. Ar y cyfan, ymddengys bod diffyg tryloywder yn broblem barhaus; cyfeiriodd bron pob Pwyllgor at hyn.

## 2. Trawsnewid Gwasanaethau

Mae trawsnewid gwasanaethau wedi bod yn ganolbwynt i waith craffu ar y gyllideb ac argymhellion y Pwyllgor Cyllid, ac yn benodol y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Roedd diwygio a symleiddio gwasanaethau yn parhau'n un o nodau allweddol Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol ym maes gofal iechyd ac yng ngwaith awdurdodau lleol yn gyffredinol.

Er bod cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynnwys Cronfa Drawsnewid benodol dros gyfnod o ddwy flynedd, ac er bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd wedi rhoi sicrwydd ar lafar, ymateb y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru oedd:

> Mae gennym bryderon dwfn ynghylch a fydd y GIG a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yn gallu cyflawni hyn, o gofio'r pwysau a nodwyd o ran galwadau a chostau, a methiant parhaus y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd i gadw'u pen uwchlaw'r dŵr.[4]

Lleisiodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon bryderon hefyd y gallai lefelau absenoldeb salwch a'r gwahaniaethau yn amodau gwaith a thâl staff gofal cymdeithasol a gofal iechyd fod yn rhwystrau sylweddol i integreiddio gwasanaethau yn llwyddiannus.

## 3. Asesiadau Effaith Integredig Strategol

Yn ystod proses gyllideb 2018-2019, roedd y Pwyllgor Cyllid wedi mynegi ei ddymuniad i weld Llywodraeth Cymru yn cynnwys Asesiadau Effaith Integredig Strategol mewn dogfennau yn ymwneud â'r gyllideb yn y dyfodol. Roedd wedi awgrymu y gellid defnyddio Asesiadau Effaith Integredig Strategol i nodi sut y mae *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* wedi dylanwadu ar y gyllideb. Cafodd Asesiad Effaith Integredig Strategol ar wahân ei

---

[4] Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon (2018), [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru](http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s81533/Health%20Social%20Care%20and%20Sport%20Committee%20Report%20on%20the%20Welsh%20Governments%20draft%20budget%202019-20.pdf) 2019-20.
http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s81533/Health%20Social%20Care%20and%20Sport%20Committee%20Report%20on%20the%20Welsh%20Governments%20draft%20budget%202019-20.pdf

gynnwys yng Nghyllideb Ddrafft Cymru 2019-20. Fodd bynnag, nid oedd hyn heb ei feirniadaeth.

Nododd y Pwyllgor Cyllid nad yw'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn hawdd ei ddeall; ni chaiff ei gyflwyno mewn ffordd systematig; ac nid yw'n dangos yn glir sut mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Beirniadodd hefyd y diffyg tystiolaeth a oedd yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol.

Mae pwyllgorau eraill – megis y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – wedi gofyn am asesiadau effaith manylach ar gyfer rhaglenni gwariant amrywiol.

Cymerodd y Pwyllgor Cyllid ran mewn sesiwn graffu gydamserol gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, a fu'n ystyried asesiadau effaith, a bu'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn arwain y sesiwn honno.

## 4. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cyllideb Ddrafft Cymru 2019-20 oedd y drydedd gyllideb ddrafft i'w chyhoeddi ers i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (y Ddeddf Llesiant) ddod i rym. Rhan o rôl pwyllgorau yw craffu ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ymgorffori'r Ddeddf Llesiant yn y broses gyllidebol.

Mewn perthynas â Chyllideb Ddrafft Cymru 2019-20, nododd y Pwyllgor Cyllid fod naratif cyllideb Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio mwy (nag yn y blynyddoedd blaenorol) ar y modd yr oedd y broses gwneud penderfyniadau yn gysylltiedig â'r Ddeddf Llesiant. Roedd hefyd yn croesawu'r astudiaethau achos a gynhwyswyd yn y gyllideb, er mwyn ymgorffori amcanion y Ddeddf Llesiant. Fodd bynnag, nododd y Pwyllgor hefyd y dylid ymgorffori nodau'r Ddeddf Llesiant yn niwylliant Llywodraeth Cymru, gan leisio pryderon nad oedd hyn yn cael ei wneud ar hyn o bryd.

Cwestiynodd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y ffordd y mae nodau'r Ddeddf Llesiant wedi dylanwadu ar y Gyllideb.

Cydnabu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod gwelliannau wedi'u gwneud, yn enwedig sut roedd y dull o gyflwyno'r Gyllideb yn tystio i broses fwy integredig o wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, beirniadodd hefyd y dull o strwythuro dyraniadau cyllideb yn unol â phortffolios y Gweinidogion.

Er bod cynnydd yn cael ei wneud, mae mwy i'w wneud o hyd i sicrhau bod y Ddeddf Llesiant yn fwy cysylltiedig â'r broses o wneud penderfyniadau a bod tystiolaeth o hyn yn nogfennau'r gyllideb. Yn benodol, mae angen mwy o gysondeb ar draws adrannau Llywodraeth Cymru.

# 5. Trechu tlodi

Cododd y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg faterion ynghylch tlodi yng nghyd-destun Cyllideb Ddrafft Cymru 2019-20, yn enwedig diffyg targedau Llywodraeth Cymru ar dlodi plant. Lleisiodd y Pwyllgor Cyllid bryderon nad oedd y Gyllideb yn rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â thlodi, gan ei drin fel "ychwanegiad" yn unig.

Roedd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn poeni nad oes arweinyddiaeth na strategaeth ar waith i fynd i'r afael â thlodi. Roedd y Pwyllgor yn feirniadol o'r ffaith nad oes llinell gyllideb unigol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant: ond roedd yn cydnabod bod £12 miliwn wedi'i ddyrannu i hyn; a gofynnodd am ragor o fanylion am y dadansoddiad o'r arian hwn a'r hyn y dymunir iddo'i gyflawni.

# 6. Prinder Cyllid

Wrth egluro'r cyd-destun ar gyfer dyraniadau cyllid 2019-20, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> *Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn sylweddol is nag yr oedd yn 2010 o ganlyniad i bolisi cyni parhaus Llywodraeth y DU, sydd wedi golygu tynhau na welwyd ei debyg ar gyllid cyhoeddus a thoriadau i wasanaethau cyhoeddus hanfodol yr ydym i gyd yn dibynnu arnynt.*[5]

Dangoswyd y sefyllfa enbyd hon gan y Pwyllgor Cyllid a nododd:

> *Yn 2019-20, bydd cyllideb Cymru 5 y cant yn is mewn termau real nag yn 2010-11, ar sail gyfatebol. Mae hyn yn cyfateb i £800 miliwn yn llai i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.*[6]

Gwnaeth y Pwyllgor Cyllid y pwynt hefyd, oherwydd bod y cap cyflog o 1 cant ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus wedi'i godi, bod awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru yn wynebu costau ychwanegol. Roedd y ganran gynyddol o adnoddau i'r

---

[5] Llywodraeth Cymru (2018) *Cyllideb Ddrafft 2019-20 Cynigion amlinellol* : https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/2019-2020-gyllideb-ddrafft-amlinellol-naratif-a.pdf

[6] Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018), Gwaith Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-2020: www.cynulliad.cymru/laid%20documents/cr-ld11905/cr-ld11905-w.pdf

gyllideb Iechyd yn golygu bod gan adrannau eraill lai i'w wario ar ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.

Nid yw'n syndod bod adroddiadau bron pob pwyllgor a fu'n craffu ar y gyllideb ddrafft wedi crybwyll diffyg cyllid ar gyfer y cyfnod 2019-20. Er enghraifft, mynegodd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ei bryder ynghylch toriadau i gyllid refeniw ar gyfer cymorth i'r Celfyddydau. Ac er bod y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn croesawu cyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, rhybuddiodd am gostau cynyddol yn y maes hwn ac roedd yn "annog Ysgrifennydd y Cabinet i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn rowndiau cyllideb yn y dyfodol".

# 7. Data sy'n benodol i Gymru

Yng nghyd-destun Cyllideb Ddrafft Cymru 2019-20, gwnaeth sawl pwyllgor sylwadau ar y ffaith bod bylchau yn y data sy'n benodol i Gymru. Roedd gan y Pwyllgor Cyllid ddiddordeb penodol yn y maes hwn, yn bennaf oherwydd diffyg data penodol i Gymru am drethi a fyddai'n helpu i lywio'r rhagolygon cyllidol at y dyfodol. Mae bylchau o'r fath yn arbennig o berthnasol o ystyried pwerau newydd Cymru i osod cyfraddau treth incwm. Dywedodd y Pwyllgor Cyllid y gallai natur ddeinamig y symudiadau trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr ei gwneud yn arbennig o anodd adnabod pobl sy'n talu treth incwm Cymru.

At hynny, mynegodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon bryder ynghylch bylchau data yn ymwneud ag iechyd meddwl; a mynegodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg bryder ynghylch bylchau data mewn perthynas â niferoedd ysgolion.

# 8. Gwariant Ataliol

Mae mater gwariant ataliol wedi cael sylw penodol yng ngwaith craffu ac argymhellion pwyllgorau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Unwaith eto, cafodd y mater hwn lawer o sylw yn ystod gwaith craffu'r pwyllgorau ar Gyllideb Ddrafft Cymru 2019-20. Mae cysylltiad agos â thrawsnewid gwasanaethau a symleiddio adnoddau. Eleni, roedd dogfennau Cyllideb Ddrafft Cymru 2019-20 yn cynnwys diffiniad o "wariant ataliol".

Dyfeisiwyd y diffiniad trwy gonsensws rhwng nifer o sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y trydydd sector, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Gwasanaeth Tân ac academyddion.

Mae'r diffiniad yn cynnwys pedwar categori o wariant ataliol – Sylfaenol, Eilaidd, Trydyddol ac Acíwt. Mae'r Gyllideb Ddrafft yn cynnwys atodiad sy'n nodi'n benodol bedwar maes gwariant ataliol yng Nghyllideb Ddrafft 2018-19 (y gyllideb flaenorol), ac sy’n nodi’r dyraniadau a wnaed.

Roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymddangos yn ochelgar o'r broses ddethol a ddefnyddiwyd wrth ddynodi’r meysydd gwariant yn yr atodiad. Dywedodd y Comisiynydd fel a ganlyn:

> *The particular parts of budgets that have been picked tend to be those ones that are doing better on prevention than not.*

Serch hynny, dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd nad oedd y diffiniad yn berffaith, ond y gallai fod yn rhywbeth y gallem o leiaf ddechrau ei ddefnyddio.

Ar y cyfan, roedd y pwyllgorau yn croesawu’r ffaith bod y diffiniad o wariant ataliol wedi’i gynnwys yn nogfennau’r gyllideb. Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgor Cyllid yn croesawu cynnwys y diffiniad, ond fe'i disgrifiodd fel gwaith ar y gweill. Cyfeiriodd at y risg bosibl y gallai adrannau gymhwyso defnydd rhy eang o'r term “ataliol” wrth ddisgrifio dyraniadau gwariant, a mynegodd bryder bod gwir ddiffyg dealltwriaeth yn y maes hwn.

## 9. Brexit

Crynhoir pwysigrwydd Brexit i Gymru yng Nghynigion Amlinellol Cyllideb Ddrafft Cymru 2019-20. Yn y ddogfen honno dywedir fel a ganlyn:

> *Bydd Brexit yn dominyddu holl feysydd gwaith Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd i ddod wrth i ni ddatgysylltu oddi wrth gysylltiadau presennol a sefydlu llwybr newydd ar gyfer Cymru.*[7]

Mynegodd mwyafrif y pwyllgorau bryder cyffredinol ynghylch y diffyg paratoi ar gyfer goblygiadau posibl ymadawiad y Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewropeaidd (UE) a'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Cyfeiriodd y Pwyllgor Cyllid at yr arian y mae Cymru yn ei gael ar hyn o bryd gan yr UE a holodd beth fyddai’n dod yn lle’r arian hwn. Cyfeiriodd yn benodol at bryderon ynghylch

[7] Llywodraeth Cymru (2018) *Cyllideb Ddrafft 2019-20 Cynigion amlinellol* : https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-11/2019-2020-gyllideb-ddrafft-amlinellol-naratif-a.pdf

cyllid newydd ar gyfer y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Rhestrodd hefyd sawl risg i Gymru sy'n gysylltiedig â Brexit, gan gynnwys recriwtio a chadw staff y sector cyhoeddus.

## 10. Tabl Materion sy'n deillio o waith craffu’r Pwyllgorau ar Gyllideb Ddrafft Cymru 2019-20

Mae'r tabl wedi'i greu yn dilyn adolygiad manwl o adroddiadau a llythyrau Pwyllgorau Cynulliad Cymru a fu’n craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20. Mae'n cefnogi'r themâu cyson y cyfeirir atynt yn Adrannau 1 i 9 ac yn darparu cyfres o ddyfyniadau i ategu’r themâu hynny.

| Thema | Pwyllgor | Cyfeirnod | Sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor |
|---|---|---|---|
| **Tryloywder Prosesau Cyllideb y Llywodraeth** | ***Y Pwyllgor Cyllid*** | Tudalen 17, paragraff 30 | *“[Mae] angen i fanylion ariannol mwy penodol fod ar gael o ran sut y mae rhwymedigaethau’n cael eu hariannu…”* |
| | | Tudalen 23, paragraff 49 | Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod gwelliannau cyffredinol mewn tryloywder a’r modd y cyflwynwyd y cynnwys ers y llynedd. |
| | | Tudalen 23, paragraff 50 | Dywedodd rhai tystion ei bod yn anodd iawn deall ble mae’r newidiadau wedi'u gwneud yn y gyllideb:<br>*“[there is]* a lot of narrative*, and it’s quite difficult to go through and pick out the figures from that, and it’s also hard to compare, not so much year on year, but over a longer period.”* |
| | | Tudalen 25, paragraff 56 | Pan ofynnwyd iddo am dryloywder yn y gyllideb ddrafft, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:<br>*“We’ve tried to improve the way in which the budget documentation demonstrates the ways in which sums of money have altered the budget expenditure line level, and there are* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *columns in the tables that are published this year that show the changes to allocations…"* |
| | | Tudalen 26, argymhelliad 2 | *"…mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymateb i bryderon rhanddeiliaid ynghylch y gallu i olrhain newidiadau penodol mewn portffolios."* |
| | **Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau** | Llythyr at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes.<br>28 Tachwedd 2018. Tudalen 1 | *"Mae'r diffyg tryloywder o ran cyllido a gweithredu'r rhaglen prentisiaethau gwerth £115 miliwn yn destun siom i'r Pwyllgor…"* |
| | **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** | Tudalen 5, Ein Barn | *"…rydym yn dal i bryderu nad yw'r offer roeddem yn gobeithio y byddent o gymorth i ni o ran olrhain dyraniadau ar gyfer plant a phobl ifanc – gan gynnwys cyllidebu mwy tryloyw ar gyfer plant a phobl ifanc, Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a chynllun iechyd plant – ar gael i lywio ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2019-20."*<br>Hefyd:<br>*"…nid ydym o'r farn bod yr wybodaeth a ddarperir o fewn neu ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2019-20 yn dangos yn ddigonol y dystiolaeth sy'n sail i hyn."* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Tudalen 23, Ein Barn | *"Credwn fod tryloywder cyllideb yn allweddol i sicrhau bod buddsoddiadau Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaethau sy'n fforddiadwy ac sy'n rhoi gwerth am arian."*<br>*"Er ein bod yn cydnabod na fydd y ffigurau terfynol o dan Gam Gweithredu Addysg Ôl-16 ar gael tan ddiwedd y broses graffu ar y Gyllideb Ddrafft, credwn y gellid ac y dylid darparu ffigurau dangosol i'r Cynulliad eu trafod fel mater o drefn."* |
| | | Tudalen 28, Ein Barn | *"Ar ben hynny, credwn fod angen adrodd yn fwy eglur am arian a symudwyd o'r BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr o ganlyniad i arbedion."* |
| | | Tudalen 30, Paragraff 68 | *"Fel yn y blynyddoedd blaenorol, nid yw'r Gyllideb Ddrafft 2019-20 yn cynnwys manylion am lefel yr adnoddau a ddyrennir i blant a phobl ifanc, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd."* |
| | **Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu** | Tudalen 3, Paragraff 11 | *"Nid oedd y Pwyllgor yn eglur o'r graddau y mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso newidiadau yn y ffyrdd o weithio… Hoffai'r Pwyllgor weld Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor ar y pwynt hwn."* |
| | | Tudalen 5, Paragraff 19 | *"Hoffai'r Pwyllgor weld mwy o eglurder gan Lywodraeth Cymru ar i ba raddau y bydd grantiau ar gael i berchnogion adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, a pha gamau sydd wedi'u cymryd i roi gwybod iddynt am y polisi hwn."* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Trawsnewid Gwasanaethau** | **Y Pwyllgor Cyllid** | Tudalen 70, Argymhelliad 15 | *"Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu dull integredig ar draws y Llywodraeth…"* |
| | **Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon** | Tudalen 4, Paragraff 18. | *"Bydd y Gronfa Trawsnewid amser-cyfyngedig (£100 miliwn dros ddwy flynedd - £50 miliwn y flwyddyn yn 2018-19 a 2019-20) yn cefnogi profi modelau gofal newydd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi bod yn glir bod yn rhaid i'r broses o drawsnewid y gwasanaeth fod yn weithgaredd craidd ar gyfer pob sefydliad iechyd a gofal cymdeithasol."* |
| | | Tudalennau 20, 22 a 23, Paragraffau 76, 83 ac 85 | Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn y gweithlu iechyd a nododd fod hyn yn bryder arbennig o fewn y gwasanaeth ambiwlans.<br>*Rydym yn nodi sicrwydd y byrddau iechyd eu bod yn ymdrechu i fynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â'u gweithlu ac yn parhau i bryderu am y cynnydd araf a wneir yn y maes hwn.*<br>*Rydym yn cydnabod y gwahaniaeth clir rhwng gweithwyr y sector gofal iechyd a gweithwyr y sector gofal cymdeithasol, fel y mae rhanddeiliaid wedi ei nodi gyda ni'n rheolaidd. Credwn fod hyn yn rhwystr sylweddol rhag integreiddio gwasanaethau yn llwyddiannus.* |
| | | Tudalen 32, Paragraff 123 | *Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau nad yw newidiadau diweddar portffolio Llywodraeth Cymru, a oedd yn gwahanu chwaraeon a gweithgaredd corfforol* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *oddi wrth iechyd, yn cael effaith niweidiol ar lunio polisïau cydgysylltiedig.* |
| | **Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau** | Tudalen 5, paragraff 22 | *"Rydym hefyd yn nodi bod diwygio Llywodraeth Leol yn dal i fod yn fater byw o hyd. Rydym yn parhau i aros am ganlyniadau gwaith Llywodraeth Cymru ar hyn, fel y gwnaethom y llynedd. Edrychwn ymlaen at ddatblygiadau pellach yn y flwyddyn newydd, gan obeithio y byddant o gymorth i roi awdurdodau lleol ar sail fwy cynaliadwy."* |
| **Asesiadau Effaith Strategol** | ***Y Pwyllgor Cyllid*** | Tudalen 26, paragraff 56 | Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y darparwyd asesiad integredig ar wahân yn nogfennau'r Gyllideb eleni yn unol â chais y Pwyllgor y llynedd. |
| | | Tudalen 54, Paragraff 149 | Lleisiodd y Pwyllgor feirniadaeth o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol:<br>*"it wasn't systematic the way that I would have expected it. ….. "there were a lot of assertions made without much backup."* |
| | | Tudalen 59, Paragraff 171 | *Mae'r Pwyllgor yn croesawu cynnwys Asesiad Effaith Integredig Strategol ar wahân ar ddyraniadau gwariant a gyhoeddir ochr yn ochr â'r cynigion cyllideb fanwl, mewn ymateb i waith craffu y llynedd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi'r dystiolaeth gan randdeiliaid ei bod yn anodd deall yr Asesiad Effaith Integredig Strategol ac nid oes digon o fanylion o hyd ar sut y mae effaith* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *opsiynau gwahanol wedi llywio'r broses benderfynu, yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau negyddol penderfyniadau cyllid.* |
| | **Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon** | Tudalen 30, Paragraff 116 | *"Byddem yn awyddus i gael gwybodaeth fanwl bellach gan Lywodraeth Cymru sy'n dangos effaith gwariant ar lefelau cyfranogi ymysg gwahanol grwpiau, ac yn nodi sut mae'r effaith hon yn cael ei monitro a'i defnyddio i lywio penderfyniadau ariannu. Dylai hyn gynnwys cyfeiriad at ryw, oedran, anabledd, ethnigrwydd, a statws economaidd-gymdeithasol."* |
| | **Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** | Tudalen 7, Ein Barn | *"Er na wnaed unrhyw benderfyniadau pendant ar gynlluniau yn y dyfodol, bydd angen gwneud rhagor o waith manwl, gan gynnwys modelu, asesiadau effaith a sefydlu cynlluniau peilot, cyn y gellir gweithredu'r cynlluniau newydd."* |
| | | Tudalen 13, Paragraff 39 | *"Mae safbwyntiau rhanddeiliaid ar y cynigion wedi bod yn gymysg, wrth i rai mynegi pryder nad yw cost, manteision ac effeithiau ehangach y camau arfaethedig wedi eu hasesu eto."* |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | ***Y Pwyllgor Cyllid*** | Tudalen 23, paragraff 49 | *"Roedd y naratif [*y gyllideb*] hefyd yn canolbwyntio'n fwy ar sut y mae penderfyniadau'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."* |
| | | Tudalen 24, Paragraff 52 | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *"They were structured by Ministerial portfolio and there were clear examples of similar initiatives being funded by separate portfolios with little or no connection between them."* |
| | | Tudalen 46, Paragraff 121 | *"Yn ogystal â chysylltu dyraniadau â nodau llesiant, mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys astudiaethau achos y mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu eu bod yn dangos sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei hymgorffori a sut y mae Ffyniant i Bawb yn cael ei flaenoriaethu."* |
| | | Tudalen 47, Paragraff 125 | *"…nododd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod rhai datblygiadau cadarnhaol yng nghyllideb 2019-20 a nododd ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet. Nododd y Comisiynydd fod y rhain yn newidiadau "syml", ond yng nghyd-destun yr hyn a gafodd ei gynnwys y llynedd, croesawyd hyn."* |
| | | Tudalen 47, Paragraff 126 | Teimlai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod y dull o gyflwyno'r gyllideb wedi gwella ers y llynedd (o ran gwneud penderfyniadau mwy integredig ynghylch gwariant). |
| | | Tudalen 59, Paragraff 168 | *"Dylid ymgorffori nodau'r Ddeddf yn niwylliant Llywodraeth Cymru ac mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r newid diwylliannol hwn yn digwydd."* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu** | Tudalen 2, Paragraff 9 | Holodd y Pwyllgor ynghylch y ffordd y mae nodau'r Ddeddf (Cenedlaethau'r Dyfodol) wedi dylanwadu ar ddyraniadau yn y gyllideb. |
| | **Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** | Tudalen 15, Ein Barn | *"Prin yw'r dystiolaeth bod cynnwys datgarboneiddio fel y chweched flaenoriaeth yn Ffyniant i Bawb wedi llywio penderfyniadau ar ddyraniadau cyllideb eleni. Yng nghyllideb ddrafft y flwyddyn nesaf, rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth glir o'r newid hwn ac, yn ogystal, dylai fod yn amlwg ar draws portffolios y Cabinet."* |
| **Tlodi** | **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** | Tudalennau 42 a 43, Ein Barn | *"Er ein bod yn nodi bod tlodi plant yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru drwyddi draw, rydym yn pryderu bod diffyg strategaeth ac arweinyddiaeth yn y maes hwn. Ni chredwn fod hyn yn cael ei helpu gan y ffaith nad oes Gweinidog penodol yn Llywodraeth Cymru yn arwain ar dlodi plant, ac nad oes llinell benodol ar gyfer tlodi plant o fewn cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru."*<br><br>*"Yn ein hadroddiad diwethaf ar y Gyllideb Ddrafft, fe wnaethom nodi ein pryderon ynghylch diffyg targedau Llywodraeth Cymru ar dlodi plant a'r hyn roeddem yn ei weld fel diffyg eglurder ynghylch faint o arian fyddai'n cael ei ddyrannu ar gyfer tlodi plant ac yn cael ei wario ar y mater. Rydym yn croesawu'r ffaith bod £12.5* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *miliwn wedi cael ei ddyrannu i fynd i'r afael â thlodi plant, ond gofynnwn am fanylion pellach yng nghylchoedd cyllideb y dyfodol ynghylch dadansoddiad o gyllid o'r fath a'r canlyniadau a ddymunir."* |
| | ***Y Pwyllgor Cyllid*** | Tudalen 50, Paragraff 135 | "…*I don't see that tackling poverty, solving poverty has the priority that it should do, given the scale of it and the impact of it, and, despite statements, I don't see a joined-Up approach and I don't see the mechanisms in place."* |
| | | Tudalen 51, Paragraff 139 | *"[*Mae] *elfennau yn y gyllideb sy'n ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ond eu bod yn aml yn ymddangos fel ychwanegiadau yn hytrach na rhan annatod o'r gyllideb."* |
| **Prinder Cyllid** | ***Y Pwyllgor Cyllid*** | Tudalen 21, paragraff 40 | *"Mae codi'r cap cyflog 1 y cant i weithwyr y sector cyhoeddus yn golygu bod awdurdodau lleol, ochr yn ochr â gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn wynebu costau ychwanegol eleni."* |
| | | Tudalen 26, paragraff 57 | *"…bydd cyllideb Cymru 5 y cant yn is mewn termau real nag yn 2010-11, ar sail gyfatebol. Mae hyn yn cyfateb i £800 miliwn yn llai i'w wario ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru."* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Tudalen 43, Paragraff 113 | Awgrymwyd mai un o'r heriau mawr yn y gyllideb oedd maint y dyraniad iechyd, nad yw'n gadael llawer o le i symud gyda bron unrhyw beth arall. |
| | **Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu** | Tudalen 2, Paragraff 7 | *"O gymharu â chyllideb atodol 2018-2019, mae cyllid refeniw ar gyfer Cymorth i'r Celfyddydau wedi gostwng o £66.9 miliwn i £65.9 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2019-20 (gostyngiad o 2% mewn termau arian parod)."* |
| | **Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon** | Tudalennau 14, 15, 16 ac 17, Paragraffau 50, 56, a 62 | *"Mae cynigion cyllideb ddrafft manwl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 yn pwysleisio mai iechyd meddwl yw'r maes unigol mwyaf o ran gwariant y GIG. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwario £675 miliwn ar wasanaethau iechyd meddwl yn 2019-20. Mae £20 miliwn yn ychwanegol yn cael ei ddarparu yn y gyllideb ddrafft hon ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, fel rhan o gytundeb cyllideb dwy flynedd Llywodraeth Cymru â Phlaid Cymru."*<br><br>*"Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan fyrddau iechyd yn awgrymu bod diffyg data am weithgarwch gwasanaethau iechyd meddwl mewn gofal sylfaenol a lleoliadau cymunedol. Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wrthym nad oedd unrhyw brosesau arferol ar gyfer olrhain gwariant i ganlyniadau."* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *"Rydym yn croesawu'r cyllid ychwanegol a ddarperir yn y gyllideb ddrafft hon ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl.* Fodd bynnag, rydym yn dal yn effro i anghysondeb y ddarpariaeth bresennol a'r gofynion cynyddol, ac yn annog Ysgrifennydd y Cabinet i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn rowndiau cyllideb yn y dyfodol." |
| | **Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau** | Tudalen 5, Paragraff 21 | *"Rydym yn parhau i gredu ei bod yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gydweithio i ddod o hyd i atebion a fydd yn sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer yr holl wasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae hyn yn wir o ran gwasanaethau statudol ac anstatudol."* |
| | | Tudalen 6, paragraff 25 | *"Nawr bod y cyfyngiad hwnnw ar gyflogau wedi cael ei ddiddymu nid yw setliad isel "neu unrhyw beth tebyg i arian gwastad yn ddigonol mewn gwirionedd ac nid yw'n mynd i'r afael â phwysau'r gweithlu yr ydym yn ei wynebu ar hyn o bryd".* |
| | **Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** | Tudalen 6, Paragraff 22 | *"Nid oedd Ysgrifennydd y Cabinet yn gallu cadarnhau a oedd digon o gyllid yng nghyllideb ddrafft 2019-20 i fodloni'r gost o sefydlu cynlluniau peilot gan nad oedd yn gwybod pa gynlluniau y bydd gennym."* |
| | | Tudalen 22, Ein Barn | *"Nid oes unrhyw ddyraniad yn y gyllideb ddrafft ar gyfer gweithredu cynllun Aer Glân. O gofio y bydd y cynllun yn cael ei* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *gyhoeddi yn 2019, byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl gweld dyraniadau cyllid cysylltiedig yng nghyllideb ddrafft 2019-20."* |
| | **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** | Tudalen 7, Paragraff 19 | *"…dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg nad oedd unrhyw arian wedi ei dderbyn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gyllido'r cynnydd yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwyr yn deillio o'r dyfarniad tâl. Disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet y sefyllfa hon fel un a oedd yn "peri pryder mawr."* |
| | | Tudalen 15, Ein Barn | *"Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd am yr adnoddau sydd ar gael i lywodraeth leol allu cyllido ysgolion yn ddigonol."* |
| | | Tudalennau 40 a 41, Paragraffau 91 a 92 | *"Dros y degawd diwethaf, mae ceisiadau am orchmynion gofal yng Nghymru a Lloegr wedi mwy na dyblu."*<br>*"Er gwaethaf y galw cynyddol am eu gwasanaethau, mae'r dyraniadau ar gyfer CAFCASS Cymru wedi gostwng yn 2019-20 gymaint ag 1.5 y cant mewn termau real."* |
| | | Tudalen 44, Paragraff 98 | *"Mewn tystiolaeth ddiweddar i ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â gofalwyr, mynegodd cynrychiolwyr y trydydd sector bryder bod awdurdodau lleol yn dibynnu'n gynyddol ar arian a ddyrannwyd i Deuluoedd yn Gyntaf i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth yn sgil setliadau tynn* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | *llywodraeth leol. Awgrymwyd bod arian Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei ddargyfeirio i ffwrdd o ddarparwyr y trydydd sector at y diben hwn."* |
| **Data sy'n benodol i Gymru** | **Y Pwyllgor Cyllid** | Rhagair y Cadeirydd, Tudalen 5 | *"Y llynedd, bu'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar y rhagolygon treth, a gwnaeth argymhellion mewn perthynas â darparu data sy'n benodol i Gymru. Mae tystiolaeth eleni wedi codi'r mater o ddata sy'n benodol i Gymru eto, ac mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod goblygiadau o ran adnoddau i greu data ychwanegol. Gyda threigl amser, rydym yn credu bod data sy'n benodol i Gymru yn hanfodol er mwyn llywio penderfyniadau polisi treth Cymru a rhagolygon treth Cymru."* |
| | | Tudalen 40, Paragraff 105 | *"…bydd data sy'n benodol i Gymru yn bendant o fudd i Gymru, a bydd yn sicrhau bod rhagolygon Cymru yn fwy cywir ac mae'r Pwyllgor yn annog Ysgrifennydd y Cabinet i ystyried ymhellach sut y gellir cydbwyso darpariaeth data ychwanegol am Gymru â'r goblygiadau o ran adnoddau."* |
| | **Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon** | Tudalen 18, Paragraff 64 | *"Hoffem weld mwy o fanylion am yr union wybodaeth a gaiff ei chasglu gan y set ddata craidd iechyd meddwl, yr amserlenni ar gyfer datblygu'r data yn llawn, a sut y bydd hyn yn gwella'r gwaith o gynllunio gwasanaethau, mesur canlyniadau, ac olrhain effaith y gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl."* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** | Tudalennau 12 ac 13, Paragraff 27 a'n Barn Ni | *"Mae tystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod nifer yr ysgolion sy'n cadw cronfeydd wrth gefn uwchlaw'r trothwy statudol (y pwynt sbarduno sy'n galluogi awdurdodau lleol i ymyrryd) wedi codi tua 100 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2017-18), o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol (2016-17), o 394 i 497."*<br><br>*"Er bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn nodi yn ei thystiolaeth ysgrifenedig nad yw Llywodraeth Cymru yn monitro a yw awdurdodau lleol yn defnyddio eu pwerau yn y maes hwn, roeddem yn falch o'i chlywed yn datgan yn ei thystiolaeth lafar fod ei swyddogion bellach yn trafod y mater gydag awdurdodau lleol ac yn edrych ar yr hyn sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater."* |
| ***Gwariant Ataliol*** | **Y Pwyllgor Cyllid** | Tudalen 63, Paragraff 182 | Disgrifiodd un aelod o'r Pwyllgor y diffiniad fel gwaith ar droed gan ychwanegu o leiaf bod diffiniad ar gael ac o leiaf ei fod yn cael ei gymhwyso, hyd yn oed os oes modd hollti blew am y manylion. |
| | | Tudalen 65, Paragraff 187 | Rhybuddiodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y canlynol:<br>*"the particular parts of budgets that have been picked tend to be those ones that are doing better on prevention than not."* |
| | | Tudalen 66, Paragraff 192 | Mynegodd y Pwyllgor bryderon mewn perthynas â chymhwyso'r diffiniad yn rhy eang a mynegwyd pryderon am ddiffyg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | dealltwriaeth gwirioneddol ynghylch gwariant ataliol. Dywedodd un Aelod:<br>*"I think I read that the intention is that all of the expenditure on education is classed as preventative, and that's when I think, 'Well, preventative of what and is that really appropriate?"* |
| | | Tudalen 68, Paragraff 201 | Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y pedair lefel atal yn y diffiniad yn brwydro yn erbyn y risg y bydd diffiniad di-ffocws o atal yn cael ei ddefnyddio, gan olygu y gallai unrhyw beth gael ei ddisgrifio fel rhywbeth ataliol. |
| | **Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau** | Tudalen 7, Paragraff 29 | *"Roeddem yn falch o weld Llywodraeth Cymru yn llunio diffiniad cyffredin o atal yn rhan o'r cylch cyllideb hwn, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid."* |
| | **Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig** | Tudalen 3, Paragraff 13 | Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dweud wrth y Pwyllgor nad yw Llywodraeth Cymru wedi dangos newid pwyslais priodol o driniaeth i atal hyd yn hyn. *Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mewn tystiolaeth ysgrifenedig ei bod "yn anodd pennu pa gyfran o'n cyllidebau sy'n ataliol".* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Brexit** | **Y Pwyllgor Cyllid** | Tudalen 77, Paragraff 231 | *"Mae'r Gyllideb ddrafft yn dangos bod Cymru yn cael tua £680 miliwn o gyllid yr UE bob blwyddyn ac yn nodi bod ansicrwydd ynghylch Brexit yn cyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i gynllunio y tu hwnt i'r tymor byr."* |
| | | Tudalen 78, Barn y rhanddeiliaid | Mae llawer o risgiau i Gymru sy'n gysylltiedig â Brexit<br>• Iechyd: recriwtio, cadw staff, cludadwyedd cymwysterau, trefniadau gofal iechyd cyfatebol gyda gwledydd eraill a'r gallu i gael gafael ar feddyginiaeth;<br>• Prifysgolion: ansicrwydd ariannol o ran disodli cyllid yr UE, mynediad at raglenni ariannu'r UE yn y dyfodol, problemau o ran gallu myfyrwyr a staff i symud o un wlad i un arall;<br>• Y Sector Gwirfoddol: Colli cyllid strwythurol yr UE; a hefyd<br>• Colli taliadau PAC. |
| | | Tudalen 80, Paragraff 240 | *"Mae'r Pwyllgor yn dal i bryderu oherwydd y manylion anhysbys am y Gronfa Ffyniant Gyffredin a dyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r effaith negyddol sylweddol y bydd unrhyw ostyngiad mewn cyllid yn ei chael ar Gymru."* |
| | **Y Pwyllgor Newid Hinsawdd,** | Tudalen 6, Argymhelliad 4 | *"Dylai Llywodraeth Cymru geisio ymrwymiad gan Lywodraeth y DU y bydd trefniadau ariannu yn y dyfodol ar gyfer cymorth ffermio a rheoli tir yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Amgylchedd a Materion Gwledig** | | *gweinyddiaethau datganoledig ac y bydd cydraddoldeb parch rhwng partneriaid."* |
| | **Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau** | Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth dyddiedig: 10 Rhagfyr, Tudalen 1 | *"Clywodd y Pwyllgor nad oedd dim cynlluniau wrth gefn ar waith ar gyfer trosglwyddo i amgylchedd ôl-Brexit, a bod Ysgrifennydd y Cabinet yn dibynnu ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod arian ar gael i gynorthwyo i drosglwyddo i amgylchedd ar ôl ymadael â'r UE."* |

# 11. Gwaith craffu dilynol ar gyllideb 2019-20

Cynhaliwyd dadl ar y Gyllideb ddrafft yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Rhagfyr 2018 (darllenwch y trawsgrifiad; gwyliwch y sesiwn ar seneddTV).

## Cyllideb Derfynol 2019-20

**Ers y Gyllideb ddrafft, dyrannwyd £111 miliwn ychwanegol i'r adrannau yn y Gyllideb Derfynol.**

Mae dwy ran o dair o'r cyllid ychwanegol hwnnw wedi'i ddyrannu i'r adran Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, a hynny drwy'r: setliad llywodraeth leol; cyfalaf; a thrwy ryddhad ardrethi busnes, yn bennaf i'r sector manwerthu.

Y prif ddyraniadau ychwanegol i adrannau yng Nghyllideb Derfynol 2019-20 o gymharu â'r Gyllideb Ddrafft oedd:

- £77.3 miliwn i Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus;
- £21.6 miliwn i Addysg;
- £5 miliwn i Adran yr Economi a Thrafnidiaeth;
- £4.9 miliwn i'r Adran Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig; a
- £2.3 miliwn i'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Roedd y rhagolygon ar gyfer trethi yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ychydig yn wahanol i'r rhagolygon yn y Gyllideb Ddrafft:**

- Roedd **gostyngiad o £40 miliwn** yn y rhagolygon ar gyfer treth incwm a hynny'n bennaf oherwydd y newid yn y lwfans personol. **Ni fydd effaith net ar gyllideb Llywodraeth Cymru** gan y bydd y grant bloc yn cael ei addasu yn y cyswllt hwn.
- Ar ôl cymhwyso rhagolygon economaidd diweddaraf y Swyddfa â Chyfrifoldebau dros y Gyllideb, arweiniwyd at **ostyngiad o £2 filiwn** yn refeniw'r Dreth Trafodiadau Tir a **chynnydd o £3 miliwn** yn refeniw'r Dreth Dirlenwi.

**Roedd Cyllideb Hydref 2018 y DU yn cynnwys £425.9 miliwn** o gyllid ychwanegol ar gyfer 2019-20. Ond cyllid a gyhoeddwyd eisoes ar gyfer y GIG oedd £333 miliwn o'r swm hwn ac roedd wedi'i **gynnwys eisoes yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.** Y prif symiau canlyniadol eraill oedd £38 miliwn ar gyfer gofal cymdeithasol a £36 miliwn i ardrethi busnes.

Trafodwyd y Cynnig Cyllideb Terfynol yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Ionawr 2019 (darllenwch y trawsgrifiad; gwyliwch y sesiwn ar seneddTV).

Cafodd yr adroddiad ar y cyd gan y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol, ei gyhoeddi ar 25 Mawrth 2019. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar y cyd ar 15 Mai 2019 a chynhaliwyd dadl ar yr adroddiad hwnnw ar 17 Gorffennaf 2019 (darllenwch y trawsgrifiad; gwyliwch y sesiwn ar seneddTV).

## Cyllideb Atodol gyntaf 2019-20

Gosododd Llywodraeth Cymru ei Chyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2019-20 ar 18 Mehefin 2019. Mae'r gyllideb yn diwygio Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyllid ei adroddiad Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 ar 5 Gorffennaf 2019.

Cynhaliwyd dadl ar Gyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 ar 9 Gorffennaf 2019 (darllenwch y trawsgrifiad; gwyliwch y sesiwn ar seneddTV).